

# STRATEGAETH CAERDYDD DDWYIEITHOG 2022-27

Wedi'i pharatoi yn unol â gofynion Safon 145 Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English.

Caerdydd Ddwyieithog Bilingual Cardiff

CARDIFF CAERDYDD

# CYFLWYNIAD GAN YR ARWEINYDD

Lansiwyd Caerdydd Ddwyieithog am y tro cyntaf yn 2017 ac mae Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog ar gyfer 2022-27 yn cynrychioli ein diwygiad cyntaf o gynllun 5 mlynedd Cyngor Caerdydd i hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg ym mhrifddinas Cymru.

Bydd y diwygiad hwn yn adeiladu ar y gwaith rhagorol a gwblhawyd gan bartneriaid Fforwm Caerdydd Dwyieithog yn y tymor 5 mlynedd cychwynnol a bydd yn cyflwyno nifer o gamau a chanlyniadau uchelgeisiol a phellgyrhaeddol i atgyfnerthu a datblygu twf yr iaith ymhellach.

Mae'r Gymraeg wedi bod yn rhan o hanes Caerdydd erioed. Mae'n agwedd annatod ar hunaniaeth y ddinas, yn rhan arbennig o'i hanes ac yn rhoi blas gwahanol iawn i'n dinas amrywiol ac amlddiwylliannol.

Mae twf parhaus yr iaith ers degawdau olaf yr 20fed ganrif fodd bynnag wedi gweithio i ailsefydlu'r Gymraeg yng Nghaerdydd a gellir ei chlywed bellach yn cael ei siarad ar y stryd ac yn y cartref, yn yr ysgol ac yn y gwaith, o Grangetown i Bontprennau ac o Radur i Sblot.

Caerdydd bellach yw'r ardal awdurdod lleol gyda'r trydydd nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru a rhagwelir y gallai fod y cyntaf erbyn diwedd tymor y strategaeth hon yn 2027.

Fel arweinydd y Cyngor ac fel siaradwr Cymraeg mae'n rhoi balchder mawr i mi weld cymunedau ein prifddinas yn cofleidio'r iaith a'i gwneud unwaith eto yn rhan o'n profiad cyffredin.

Y diwygiad mwyaf arwyddocaol i strategaeth Caerdydd Ddwyieithog ar gyfer y 5 mlynedd nesaf yw mabwysiadu'r themâu strategol a gyflwynir fel rhan o Gymraeg 2050, cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Y tair thema strategol yw cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, a darparu amodau ffafriol i gefnogi twf yr iaith.

Bydd Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog yn cefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru ac yn cynnwys targedau a chamau gweithredu i gynnal twf y Gymraeg yn y ddinas a chyrraedd nodau Cymraeg 2050.

Mae twf y Gymraeg yng Nghaerdydd wedi'i gefnogi gan ehangu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg.

Caerdydd Ddwyieithog Bilingual Cardiff

Mae Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog yn cynnwys nifer o dargedau i ddatblygu'r ddarpariaeth hon a chaiff ei gweithredu i gefnogi a hwyluso Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 10 mlynedd newydd y Cyngor.

Paratowyd y ddwy strategaeth law yn llaw i sicrhau cysondeb o ran gweithredu ac uchelgais ac i roi cyfle i bob rhiant yng Nghaerdydd weld eu plant yn cael eu haddysgu yn Gymraeg.

Maent hefyd yn cynnwys camau gweithredu a thargedau i gynyddu argaeledd darpariaeth Gymraeg mewn ysgolion Saesneg ac i gefnogi'r gweithlu addysg i addysgu'r Gymraeg fel pwnc ac i addysgu pynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog yn cynnwys camau gweithredu a thargedau uchelgeisiol a phellgyrhaeddol i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yng nghymunedau Caerdydd.

Mae'r rhain yn cynnwys sefydlu fforwm ieuenctid i gyflwyno digwyddiadau Cymraeg, mentrau hyrwyddo gyda chymunedau lleiafrifol ac ethnig amrywiol, cynhyrchu cylchlythyr sy'n manylu ar gyfleoedd cyflogaeth yn y Gymraeg a phecyn gwybodaeth sy'n manylu ar wasanaethau Cymraeg i unigolion a theuluoedd sy'n symud i'r ddinas, a datblygu gweithlu Cymraeg y Cyngor drwy hyfforddiant a recriwtio.

Bydd y camau hyn yn cefnogi Cymraeg 2050 ac yn galluogi'r Cyngor i symud yn nes at ei weledigaeth o weld Caerdydd yn brifddinas wirioneddol ddwyieithog.

Mae Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 yn gyfle i dyfu'r Gymraeg a hyrwyddo ei pherchnogaeth ar gyfer pob dinesydd.

Mae'r Gymraeg bob amser wedi bod yn rhan o dreftadaeth ein dinas ac rwy'n croesawu'r strategaeth uchelgeisiol hon sy'n darparu'r amodau sydd eu hangen iddi ffynnu ymhellach ym mhrifddinas Cymru.



**Y Cynghorydd Huw Thomas**
**Arweinydd, Cyngor Dinas Caerdydd**



# TROSOLWG

Sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fframwaith cyfreithiol i osod dyletswyddau ar sefydliadau penodol i gydymffurfio â safonau yn ymwneud â'r Gymraeg trwy is-ddeddfwriaeth (Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015).

Rhestrir y safonau a gyflwynwyd i Gyngor Dinas Caerdydd yn *'Hysbysiad Cydymffurfio Cyngor Dinas Caerdydd - Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011'.*

Mae Safon 145 yn mynnu bod y Cyngor yn cynhyrchu a chyhoeddi strategaeth 5 mlynedd sy'n nodi sut y byddwn yn hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

Mae'r strategaeth hon yn cynnwys targed i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd yn ogystal â chamau penodol i hwyluso defnydd o'r iaith i gefnogi gweledigaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Sefydlwyd y Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog gyntaf ar gyfer 2017-2022. Mae'r strategaeth hon yn cynrychioli ei diwygiad cyntaf a bydd ar waith rhwng 2022 a 2027. Caiff ei hadolygu a'i chymeradwyo gan Gabinet Cyngor Caerdydd a'i chyhoeddi erbyn mis Mawrth 2022.

**Mae Safon y Gymraeg 145 yn datgan:**

**Rhaid i chi lunio, a chyhoeddi ar eich gwefan, strategaeth 5 mlynedd sy'n nodi sut yr ydych yn bwriadu hyrwyddo'r Gymraeg a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn ehangach yn eich ardal; a rhaid i'r strategaeth gynnwys (ymhlith materion eraill)**

**(a) targed (o ran canran y siaradwyr yn eich ardal) ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal erbyn diwedd y cyfnod 5 mlynedd dan sylw, a**

**(b) datganiad sy'n nodi sut yr ydych yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw; a rhaid i chi adolygu'r strategaeth a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ar eich gwefan o fewn 5 mlynedd i gyhoeddi strategaeth (neu o gyhoeddi strategaeth ddiwygiedig)**

## MANYLION CYSWLLT

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â caerdydd-ddwyieithog@caerdydd.gov.uk

Caerdydd Ddwyieithog Bilingual Cardiff

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| 1. Caerdydd Ddwyieithog | 6 |
| 2. Proffil Iaith Caerdydd | 8 |
| 3. Cyd-destun Polisi | 10 |
| 4. Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-32 | 13 |
| 5. Gweithio gyda Phartneriaid | 14 |
| 6. Themâu Strategol Cymraeg 2050 | 15 |
| Atodiad I: Cynllun Gweithredu 5 Mlynedd Caerdydd Ddwyieithog | 18 |
| Atodiad II: Prif Bartneriaid | 34 |


Caerdydd Ddwyieithog
Bilingual Cardiff



# 1. CAERDYDD DDWYIEITHOG

## Datganiad Cenhadaeth

Gweithio gyda phartneriaid i ddyblu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd erbyn 2050 drwy'r Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog yn unol â gweledigaeth Llywodraeth Cymru

## Gweledigaeth

Ein gweledigaeth yw datblygu Caerdydd sy'n wirioneddol ddwyieithog. Caerdydd lle gall ein dinasyddion fyw, gweithio a chwarae yn ogystal â manteisio ar wasanaethau a chymorth yn Gymraeg neu Saesneg yn yr un modd.

Prifddinas lle mae dwyieithrwydd yn cael ei hyrwyddo fel rhywbeth cwbl naturiol, a lle mae'r Gymraeg yn cael ei diogelu a'i meithrin i genedlaethau'r dyfodol ei mwynhau a'i defnyddio.

Mae Caerdydd wedi bod yn un o'r dinasoedd mawr sy'n tyfu gyflymaf yng ngwledydd Prydain, ac mae'r twf hwn wedi cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg.

Dros y 25 mlynedd ddiwethaf, mae nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd wedi mwy na dyblu gyda ffigyrau'r cyfrifiad diwethaf yn dangos bod dros 16 % o boblogaeth y ddinas yn meddu ar un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg.

Wrth i'r ddinas dyfu ein nod yw cynyddu nifer a chanran y siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yng Nghaerdydd. Rydyn ni'n llwyr gefnogi Cymraeg 2050, gweledigaeth Llywodraeth Cymru i weld miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Er mwyn i Gaerdydd chwarae ei rhan yn y gwaith o gyflawni'r weledigaeth hon, byddai angen i ni gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg (3+ oed) yng Nghaerdydd gan 15.9 % Yn seiliedig ar nifer y siaradwyr Cymraeg a ragwelir yng Nghyfrifiad 2021, sef 42,584, byddai hyn yn gofyn am gynnydd i 49,355 yng Nghyfrifiad 2031. Er mwyn cefnogi'r ymrwymiad i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn unol â'r targedau a bennwyd gan Cymraeg 2050, bydd gofyn i ni gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg (3+ oed) yng Nghaerdydd gan 3,386 dros oes Strategaeth 2022-27, ac mae hyn wedi'i gynnwys fel amcan yn y cynllun gweithredu.

Bydd y targedau ar gyfer y cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd yn cael eu diwygio yn dilyn cyhoeddi data Cyfrifiad 2021.

Mae'r dull gweithredu a nodir yn y ddogfen hon wedi'i strwythuro i adlewyrchu'r meysydd strategol a amlinellir yn Cymraeg 2050, Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru. Mae Cymraeg 2050 wedi'i strwythuro o gwmpas 3 maes strategol sydd wedi'u pennu gyda'r nod o gynyddu defnydd o'r Gymraeg.

Caerdydd Ddwyieithog
Bilingual Cardiff

Mae Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 yn nodi ein blaenoriaethau strategol o dan bob un o'r meysydd hyn, ac yn nodi'r newid y bydd angen i ni ei wneud i wireddu ein gweledigaeth o Gaerdydd ddwyieithog.

Mae hon yn strategaeth i'r ddinas gyfan, nid i un sefydliad yn unig. Bydd cyflawni'r strategaeth felly yn dibynnu ar weithio mewn partneriaeth: rhwng partneriaid sector cyhoeddus, rhwng y sectorau cyhoeddus, preifat ac addysg ac, yn bwysicach na dim, gyda phobl Caerdydd.

Mae'r Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog gyntaf wedi creu perthynas werthfawr a chynhyrchiol gyda phartneriaid ar draws dinas Caerdydd o dan faner Caerdydd Ddwyieithog. Maent yn cynnwys sefydliadau fel Mudiad Meithrin, yr Urdd a Menter Caerdydd, darparwyr addysg uwch ac addysg bellach megis Prifysgol Caerdydd a Choleg Caerdydd a'r Fro, a sefydliadau diwylliannol fel Canolfan Mileniwm Cymru a Llenyddiaeth Cymru.

Bydd y strategaeth ddiwygiedig ar gyfer 2022-27 yn dyfnhau'r cydberthnasau hyn drwy gytuno ar a chyflawni canlyniadau ac amcanion uchelgeisiol ac eang eu cwmpas fel rhan o gynllun gweithredu Caerdydd Ddwyieithog. Bydd Caerdydd Ddwyieithog hefyd yn ceisio ymestyn y rhwydwaith partneriaid o ran cynrychiolaeth ar gyfer dinasyddion Caerdydd a thrwy gynnwys partneriaid rhanbarthol ar draws rhanbarth de-ddwyrain Cymru.

Bydd cefnogi pobl ifanc, teuluoedd a chymunedau i ddysgu a siarad Cymraeg hefyd yn ganolog i'r gwaith o gyflawni ein huchelgeisiau. Mae'r blynyddoedd diwethaf wedi gweld cynnydd sylweddol yn nhwf addysg Gymraeg yn y ddinas, gyda chynnydd parhaus yn nifer y plant a phobl ifanc sydd bellach yn cael addysg Gymraeg.

Bydd y system addysg a Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-32 y Cyngor yn chwarae rôl allweddol yn sicrhau twf yr iaith yn y dyfodol wrth i ni geisio cynyddu nifer y plant - a rhieni - sy'n cael y cyfle i ddysgu a siarad Cymraeg, a chael cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith y tu allan i gatiau'r ysgol.

Caerdydd Ddwyieithog Bilingual Cardiff

# 2. PRIFDDINAS DDWYIEITHOG: PROFFIL IAITH CAERDYDD

Mae'r ddinas wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg, gyda niferoedd yn dyblu dros yr 20 mlynedd rhwng cyfrifiadau 1991 a 2011. Mae cyfrifiad 2011 yn dangos bod gan 16.2 % o boblogaeth Caerdydd un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg (y gallu i ddarllen, ysgrifennu a/neu ddeall Cymraeg) ac mae 36,735 neu 11.1 % o boblogaeth y sir yn siaradwyr Cymraeg.

Rhagwelir y bydd nifer y siaradwyr Cymraeg yn 42,584 yn 2021[1]. Caiff yr amcanestyniad hwn ei ddilysu, a chaiff yr holl dargedau cysylltiedig eu diwygio yn ôl yr angen, ar ôl cyhoeddi data Cyfrifiad 2021.

**Cymhariaeth yn nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg rhwng 1991 a 2021:**

| CAERDYDD | | | |
|---|---|---|---|
| 1991 | 2001 | 2011 | 2021 (amcanestyniad) |
| 18,071 (6.6 %) | 32,504 (11 %) | 36,735 (11.1 %) | 42,584 (11.6 %)[2] |

Mae Caerdydd wedi gweld cynnydd cyson yn nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg dros y 30 mlynedd diwethaf ac ar hyn o bryd dyma'r awdurdod lleol sydd â'r trydydd nifer uchaf[3] o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru


Mae'r crynodiad o siaradwyr Cymraeg ar draws wardiau etholiadol y ddinas yn amrywio o 7-9 % mewn ardaloedd fel Llanrhymni, Adamsdown a Butetown i 17-19 % yng Nghreigiau / Sain Ffagan, Pentyrch a Threganna[4]. Rhagwelir y bydd canlyniadau Cyfrifiad 2021 yn dangos cynnydd parhaus yn nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg ar draws dinas Caerdydd.

*1. Yn seiliedig ar Arolwg Blynyddol y Boblogaeth Llywodraeth Cymru a Data Proffil Awdurdodau Lleol.*
*2. Yn seiliedig ar boblogaeth ragamcanol Llywodraeth Cymru ar gyfer Caerdydd yn 2021 (365,317).*
*3. Arolwg Blynyddol y Boblogaeth*
*4. Data Cyfrifiad 2011*




Caerdydd Ddwyieithog Bilingual Cardiff

**Canran y Boblogaeth 3+ Oed sy'n gallu siarad Cymraeg, 2011 (Cyfrifiad)**




**Nifer y myfyrwyr sydd wedi cofrestru mewn addysg Gymraeg 2015 - 2027 (rhagamcan 2021 - 2027)**




Mae'r twf yn nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd wedi ei yrru gan ddwy duedd amlwg:

1. Mae nifer sylweddol o siaradwyr Cymraeg wedi mudo i Gaerdydd ers yr 1980au.

2. Ehangu addysg gynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg, wedi ei sbarduno gan bolisi, ymarfer ac ymrwymiad rhieni a staff addysgu.[5]

Mae'r nifer a ragwelir o ddisgyblion yn ystyried y data diweddaraf ar gyfer llenwi lleoedd a ddarparwyd gan y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) yn ystod y tair blynedd diwethaf.  Mae'r niferoedd a ragwelir yn dechrau gostwng o fis Ionawr 2024 oherwydd gostyngiad sylweddol yn y gyfradd genedigaethau a'r gostyngiad dilynol yn y niferoedd a fydd yn mynd i ysgolion cynradd yn gyffredinol.

Ar hyn o bryd mae 3 ysgol uwchradd Gymraeg ac 17 o ysgolion cynradd Cymraeg yn y ddinas (dwy ohonynt yn ysgolion cynradd dwy ffrwd). Mae'r data diweddaraf o niferoedd cofrestru yn cadarnhau bod 4707 o ddisgyblion yn mynychu ar lefel gynradd a 2756 o ddisgyblion 11-16 oed ar lefel uwchradd (Ebrill 2021).

Gellir gweld rhagor o wybodaeth am broffil iaith Caerdydd yma.

*5. Gweler Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-32 Cyngor Dinas Caerdydd*

Caerdydd **Ddwyieithog** **Bilingual** Cardiff

# 3. CYD-DESTUN POLISI

Mae cynhyrchu, cyhoeddi a gweithredu strategaeth bum mlynedd i hyrwyddo'r Gymraeg yn ofyniad statudol sy'n deillio o Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015.

Mae Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog ar gyfer 2022-27 yn cynrychioli adolygiad a pharhad o'r Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog gyntaf (2017-2022) ac mae'n adeiladu ar y gwaith a wnaed yng Nghaerdydd i ddiwallu anghenion siaradwyr Cymraeg, dysgwyr a chymunedau'r ddinas.

Yn ogystal, mae'r Strategaeth hon yn darparu sylfaen graidd wrth gyflawni'r nod 'lles' - Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu – yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae'r adran ganlynol yn nodi'r fframwaith statudol a pholisi y mae'r strategaeth newydd hon yn gorwedd y tu mewn iddo:

**Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015**

Sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fframwaith cyfreithiol i osod dyletswydd statudol ar gyrff cyhoeddus i gydymffurfio â safonau ymddygiad o ran yr iaith Gymraeg. Mae Cyngor Caerdydd wedi gweithredu'r safonau hyn ers mis Mawrth 2016.

Diben y safonau yw sicrhau:

- bod gan bobl Cymru hawl gyfreithiol i ddefnyddio'r Gymraeg;
- na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg; a
- bod y defnydd o'r iaith yn cael ei hyrwyddo a'i hwyluso ym mhob agwedd ar waith a darpariaeth gwasanaethau'r Cyngor.

Gwnaeth safonau'r Gymraeg ddisodli'r system o gynlluniau iaith Gymraeg a gyflwynwyd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i lunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol yn manylu ar eu gweithrediad.



Caerdydd Ddwyieithog Bilingual Cardiff

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Nod y Ddeddf hon yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Bydd y Ddeddf yn gwneud i'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf feddwl yn fwy am yr hirdymor, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a chyda'i gilydd, ceisio atal problemau a defnyddio dull gweithredu mwy cydlynol. Un o'r saith nod Lles a restrir yn y Ddeddf yw "Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu".

**Cymraeg 2050**

Wedi ei chyhoeddi yn 2017, dyma weledigaeth Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn y flwyddyn 2050. Mae'n cyflwyno tair thema graidd a fydd yn hwyluso cyflawni'r uchelgais hon:

- Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
- Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg
- Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

Mae Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog yn manylu ar ymrwymiad ac amcanion Cyngor Caerdydd i gefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru ac mae ei gynllun gweithredu yn dilyn y tair thema a nodir uchod.

**Cyflawni Uchelgais: Cynllun Corfforaethol Cyngor Caerdydd 2020-22 a Chynllun Lles Caerdydd 2018-2022**

Mae Cyflawni Uchelgais Prifddinas, Cynllun Corfforaethol y Cyngor, yn nodi sut y caiff blaenoriaethau'r Weinyddiaeth ar gyfer Caerdydd eu cyflawni, gan sicrhau eglurder o ran yr hyn fydd yn cael ei gyflawni, ac erbyn pryd. Mae Uchelgais Prifddinas yn nodi pedair blaenoriaeth:

- Gweithio dros Gaerdydd: Sicrhau y gall ein holl ddinasyddion gyfrannu at lwyddiant y ddinas a manteisio ar hynny.
- Gweithio dros Gymru: Mae angen prifddinas lwyddiannus i greu Cymru lwyddiannus.
- Gweithio ar gyfer y Dyfodol: Rheoli twf y ddinas mewn ffordd gynaliadwy.
- Gweithio dros Wasanaethau Cyhoeddus: Sicrhau bod ein gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu'n effeithlon, effeithiol a chynaliadwy yn wyneb y galw cynyddol a chyllidebau llai

Mae'r Cynllun Lles Caerdydd yn nodi blaenoriaethau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd dros y 5 mlynedd nesaf ac wedi hynny. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar y meysydd darparu gwasanaethau cyhoeddus sydd wir yn gofyn am waith partneriaeth rhwng gwasanaethau cyhoeddus a chymunedol y ddinas, a chyda dinasyddion Caerdydd.

## Caerdydd 2030

Dyma weledigaeth Cyngor Caerdydd ar gyfer addysg ac mae'n adeiladu ar ymgysylltu ac ymgynghori helaeth gydag arweinwyr ysgolion, llywodraethwyr, addysgwyr ehangach, partneriaid a rhanddeiliaid, ynghyd â llawer o blant a phobl ifanc, rhwng Ionawr a Gorffennaf 2019.

Mae'n ceisio atgyfnerthu'r cyflawniadau a wnaed o dan Caerdydd 2020 ond hefyd yn nodi cwmpas ehangach ac uchelgais uwch ar gyfer dysgu yng Nghaerdydd yn y dyfodol. Mae hyn yn cofleidio dysgu y tu hwnt i waliau ysgol statudol ffurfiol, ac yn ceisio atgyfnerthu safle ysgolion o ran dysgu ledled y ddinas yn ehangach.

O dan bum nod allweddol, mae'n llywio, ar lefel uchel, y camau y credwn y bydd angen eu cymryd i wireddu ein huchelgeisiau ar gyfer addysg yng Nghaerdydd hyd at 2030. Bydd y camau i gyflawni'r nodau hyn wedi eu seilio'n gadarn ar ddwy thema allweddol; cyfrifoldeb a rennir a phartneriaeth, a chydnabod hawliau plant a phobl ifanc ym mhopeth a wnawn.

## Caerdydd sy'n Dda i Blant

Caerdydd yw'r ddinas gyntaf yng Nghymru i gymryd rhan ym mhwyllgor y DU ar gyfer menter Dinasoedd a Chymunedau sy'n Dda i Blant UNICEF. Ein huchelgais yw i Gaerdydd gael ei hadnabod fel Dinas sy'n Dda i Blant: dinas â phobl ifanc yn ganolog iddi, lle mae hawliau plant a phobl ifanc yn cael eu parchu, a lle gwych i gael eich magu.

Bydd Cyngor Caerdydd yn cydweithio â'i bartneriaid i greu dinas lle gall pob plentyn a pherson ifanc rannu eu llais a chael mewnbwn ar benderfyniadau a fydd yn effeithio arnynt.

# 4. CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG 2022-2032 CYNGOR CAERDYDD

Paratoir Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSGA) o dan Adran 84 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac mae'n cydymffurfio â Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019.

Maent yn gosod gofyniad statudol ar awdurdodau lleol i baratoi a chyflwyno Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA). Mae'r Ddeddf yn galluogi Gweinidogion Cymru i gymeradwyo'r Cynllun a gyflwynwyd, cymeradwyo'r Cynllun gydag addasiadau neu wrthod y Cynllun a gofyn i'r awdurdod baratoi un arall.

Mae'r CSCA yn canolbwyntio ar y targedau yn y Strategaeth Addysg Gymraeg a disgwylir i awdurdodau lleol adrodd yn flynyddol ar eu perfformiad yn erbyn y targedau hyn.  Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, bydd y CSCA yn cael ei weithredu dros gyfnod o ddeng mlynedd rhwng 2022 a 2032.

Bydd Cyngor Caerdydd yn cyhoeddi ei Gynllun Cymraeg mewn Addysg (CSCA) 10 mlynedd ar gyfer 2022-2032 ym mis Chwefror 2022.  Mae'r amserlenni ymgynghori a chyhoeddi ar gyfer Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog a'r CSCA wedi'u cysoni er mwyn hwyluso'r gwaith o gynnwys amcanion a chanlyniadau cydfuddiannol.

Un o'r prif argymhellion yn asesiad Nico o weithrediad y Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog gyntaf (2017-22) oedd cryfhau'r berthynas rhwng y ddwy strategaeth a chysoni targedau.

Mae'r gwaith hwn wedi'i wneud mewn partneriaeth ag adran Addysg y Cyngor ac mae cynllun gweithredu Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 wedi'i ddiwygio ac ychwanegwyd colofn ychwanegol i gadarnhau'r Canlyniadau CSCA a gefnogir gan fentrau a chamau gweithredu penodol.

Rhaid i'r ymrwymiadau a wnaed yn y Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd gael eu cefnogi drwy ehangu'r addysg cyfrwng Cymraeg a gyflwynir yn y CSCA ac felly mae'r aliniad hwn yn briodol a chaiff y ddwy strategaeth eu cyhoeddi ar yr un pryd.

# 5. GWEITHIO GYDA PHARTNERIAID

Lansiwyd y Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 5 mlynedd gyntaf yn 2017. Sefydlodd y strategaeth yr egwyddor o weithio mewn partneriaeth â phartneriaid a rhanddeiliaid ar draws y ddinas.

Mae'r strategaeth 5 mlynedd hon ar gyfer 2022-27 yn adeiladu ar y cydberthnasau sefydledig a chynhyrchiol hyn i gefnogi a chyflawni ein cyd-weledigaeth o ddinas wirioneddol ddwyieithog.

Mae Fforwm Caerdydd Ddwyieithog, sy'n cynnwys cynrychiolaeth o blith partneriaid Caerdydd Ddwyieithog, yn ysgwyddo'r gwaith o weithredu a monitro'r strategaeth hon ar ran eu sefydliadau, tra bydd tîm Caerdydd Ddwyieithog yn arwain ar hwyluso'r Strategaeth o safbwynt y Cyngor yn ogystal ag adrodd ar gynnydd i Gomisiynydd y Gymraeg fel rhan o Adroddiad Safonau'r Gymraeg Blynyddol y Cyngor. Gweler **Atodiad II** i gael rhagor o wybodaeth am brif bartneriaid Caerdydd Ddwyieithog.

Mae'r sefydliadau yn Fforwm Caerdydd Ddwyieithog hefyd wedi cyfrannu at waith y Cyngor ac mae nifer o bartneriaid wedi cyflwyno prosiectau perthnasol o ran cyfraniad eu sefydliadau tuag at weithredu Cynllun Gweithredu Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog i Weithgor Caerdydd Ddwyieithog.

Mae'r Gweithgor yn grŵp trawsbleidiol o gynghorwyr Cyngor Caerdydd sy'n rhoi trosolwg o weithrediad Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog a'i chynllun gweithredu ategol.




Caerdydd Ddwyieithog
Bilingual Cardiff

# 6. THEMÂU STRATEGOL CYMRAEG 2050

| Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg | |
|---|---|
| **Gweledigaeth** | Cynyddu nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd |
| **Deilliant** | Mae nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd yn parhau i gynyddu ac yn cyrraedd y targedau a nodwyd i gyflawni nodau Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 |
| **Meysydd Gwaith** | • Trosglwyddiad iaith yn y teulu<br>• Y blynyddoedd cynnar<br>• Addysg statudol<br>• Addysg ôl-orfodol<br>• Y Gweithlu addysg, adnoddau a chymwysterau |
| **Meysydd Blaenoriaeth** | • Hyrwyddo manteision defnyddio'r Gymraeg yn y cartref a chodi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a'i hanes a'i diwylliant gyda theuluoedd nad ydynt yn siarad Cymraeg.<br>• Hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg gyda chymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a chymunedau a dangynrychiolir yng Nghaerdydd.<br>• Cynyddu nifer y disgyblion sy'n derbyn addysg gynradd ac uwchradd Gymraeg.<br>• Datblygu cyfleoedd i blant a phobl ifanc mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg gysylltu mewn modd cadarnhaol â'r Gymraeg.<br>• Rhoi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022 – 2032 ar waith.<br>• Cynyddu'r gweithlu addysg a hyfforddiant sy'n gymwys i ddysgu Cymraeg fel pwnc ac i addysgu pynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg |

| Thema 2: Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg | |
|---|---|
| **Gweledigaeth** | Prifddinas wirioneddol ddwyieithog |
| **Deilliant** | Cynnydd sylweddol a normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg |

Caerdydd Ddwyieithog
Bilingual Cardiff

| | |
|---|---|
| **Meysydd gwaith** | • Y gweithlu<br>• Gwasanaethau<br>• Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg |
| **Meysydd Blaenoriaeth** | • Cynyddu nifer staff Cyngor Caerdydd sy'n gallu siarad Cymraeg.<br>• Cynyddu nifer staff Cyngor Caerdydd sy'n derbyn hyfforddiant Cymraeg.<br>• Rhoi canllawiau arfer gorau i sefydliadau partner Caerdydd Ddwyieithog i gynyddu nifer eu staff sy'n siarad Cymraeg a'r nifer sy'n derbyn hyfforddiant Cymraeg.<br>• Darparu gwasanaethau Cymraeg o ansawdd uchel a bodloni gofynion Safonau'r Gymraeg.<br>• Sefydlu Fforwm Ieuenctid i rymuso pobl ifanc i gyflwyno digwyddiadau cymdeithasol Cymraeg.<br>• Datblygu rhaglen o weithgareddau ar gyfer pobl ifanc sy'n siarad Cymraeg fel ail iaith. |

| Thema 3: Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun | |
|---|---|
| **Gweledigaeth** | Creu a chynnal amodau addas ac amgylchedd lle gall y Gymraeg a'i siaradwyr ffynnu. |
| **Deilliannau** | Cefnogir y Gymraeg drwy gynllunio ieithyddol, datblygu economaidd, llwyfannau digidol a diwylliant. |
| **Meysydd gwaith** | • Cymuned a'r economi<br>• Diwylliant a'r cyfryngau<br>• Cymru a'r byd ehangach<br>• Technoleg ddigidol<br>• Seilwaith ieithyddol<br>• Cynllunio ieithyddol<br>• Gwerthuso ac ymchwil |
| **Meysydd Blaenoriaeth** | • Datblygu adnodd i fanylu ar yr holl gyfleoedd cyflogaeth a datblygu Cymraeg yn y ddinas.<br>• Cynnal a datblygu ymhellach raglenni o weithgareddau diwylliannol ar gyfer plant a phobl ifanc, teuluoedd ac oedolion a phobl hŷn.<br>• Datblygu pecyn gwybodaeth sy'n manylu ar yr holl wasanaethau a chymorth Cymraeg sydd ar gael yng Nghaerdydd.<br>• Sicrhau bod y Gymraeg wrth wraidd arloesi yn y maes technoleg ddigidol er mwyn gallu defnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun digidol.<br>• Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob datblygiad newydd yng Nghaerdydd. |



# ATODIADAU

Caerdydd Ddwyieithog: Strategaeth 5 Mlynedd y Gymraeg 2022-27

# ATODIAD 1 - CYNLLUN GWEITHREDU 5 MLYNEDD CAERDYDD DDWYIEITHOG

## THEMA STRATEGOL 1: CYNYDDU NIFER Y SIARADWYR CYMRAEG

**Meysydd Gwaith:**

1. **Trosglwyddo'r iaith o fewn y teulu**
2. **Y blynyddoedd cynnar**
3. **Addysg statudol**
4. **Addysg ôl-orfodol**
5. **Y gweithlu addysg, adnoddau a chymwysterau**

| Amcan | Targed | Amserlen | Ffynhonnell Adrodd | Partner(iaid) Cyflawni | Deilliant/ Deilliannau CSCA a Gefnogir |
|---|---|---|---|---|---|
| **1.** Yr holl dargedau ar gyfer Thema 1 i'w diwygio ar ôl derbyn data Cyfrifiad 2021 | Targedau a blaenoriaethau i'w hasesu ar ôl derbyn data'r Cyfrifiad a'u mireinio/addasu ymhellach. | Rhagwelir y bydd data'r Cyfrifiad yn cael ei gyhoeddi yn 2023 | Cyfrifiad 2021 | Cyngor Caerdydd | |
| **2. Ymgyrch i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y cartref – hyrwyddo dwyieithrwydd ac aml-ieithrwydd o fewn aelwydydd di-Gymraeg yng Nghaerdydd.** | Cynnydd yn nifer y teuluoedd sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch Cymraeg a dwyieithog yn y cartref – e.e. Clwb Cwtsh S4C a gweithgarwch tebyg gan bartneriaid y Fforwm. | Cytuno a lansio'r ymgyrch erbyn mis Medi 2022 gyda chynnydd i'w adrodd yn flynyddol gan y partneriaid cyflawni. | Partner cyflawni yn adrodd i Fforwm CDd | Mudiad Meithrin<br><br>Cymraeg i Blant<br><br>Menter Caerdydd<br><br>S4C<br><br>Yr Urdd<br><br>Cylch meithrin (grwpiau meithrin) | Deilliannau 1, 2, 3, 4 a 5 |

Caerdydd Ddwyieithog Bilingual Cardiff

| Amcan | Targed | Amserlen | Ffynhonnell Adrodd | Partner(iaid) Cyflawni | Deilliant/ Deilliannau CSCA a Gefnogir |
|---|---|---|---|---|---|
| **3.** Hyrwyddo addysg Gymraeg ymhlith teuluoedd di-Gymraeg i gynyddu ymwybyddiaeth o hanes y Gymraeg a meithrin balchder yn yr iaith. | Datblygu a chyflwyno ymgyrch ymwybyddiaeth iaith erbyn mis Gorffennaf 2024.<br><br>Partneru gyda'r Cylchoedd Meithrin, gwasanaethau Cyngor Caerdydd (e.e. Dechrau'n Deg, Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant) a gweithwyr iechyd a bydwragedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIPCaF) i hyrwyddo addysg Gymraeg ac ymwybyddiaeth o'r Gymraeg. | Mawrth 2024<br><br>Cyflwyno'r ymgyrch ym mis Gorffennaf 2024. | Cytuno ar yr ymgyrch ymwybyddiaeth iaith yng nghyfarfod Fforwm CDd ym mis Mawrth 2023<br><br>Partner cyflawni yn adrodd i Fforwm CDd | Cyngor Caerdydd<br><br>Prifysgol Caerdydd<br><br>Consortia Addysg<br><br>Menter Caerdydd<br><br>Yr Urdd<br><br>BIPCaF<br><br>Cylch Meithrin (grwpiau meithrin) | **Deilliannau 1, 2, 3, 4 a 5** |
| **4.** Cynyddu darpariaeth hyfforddiant Cymraeg i rieni sy'n anfon eu plant i ysgolion Cymraeg. | Cynnydd yn nifer y rhieni di-Gymraeg sy'n anfon eu plant i ysgolion Cymraeg yng Nghaerdydd sy'n derbyn hyfforddiant Cymraeg drwy bartneriaid y Fforwm. | Darpariaeth gychwynnol i'w chyflwyno erbyn mis Medi 2022 ac ystadegau cyfranogiad i'w hadrodd yn flynyddol gan bartneriaid cyflawni gyda'r targed i'w gyrraedd erbyn mis Mawrth 2027. | Partner cyflawni yn adrodd i Fforwm CDd | Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol<br><br>Menter Caerdydd<br><br>Mudiad Meithrin<br><br>Yr Urdd<br><br>Coleg Caerdydd a'r Fro (CCF)<br><br>Uned Drochi'r Gymraeg | **Deilliannau 1, 2, 3, 4, 5 a 6** |

Caerdydd Ddwyieithog Bilingual Cardiff

| Amcan | Targed | Amserlen | Ffynhonnell Adrodd | Partner(iaid) Cyflawni | Deilliant/ Deilliannau CSCA a Gefnogir |
|---|---|---|---|---|---|
| **5.** Cynnydd mewn cyfleoedd cymdeithasol Cymraeg yn y blynyddoedd cynnar, a chodi ymwybyddiaeth o'r ddarpariaeth hon. | Cynnydd o 25% mewn darpariaeth gymdeithasol Gymraeg ar gyfer y blynyddoedd cynnar, wedi'i darparu gan bartneriaid y Fforwm. | Darpariaeth i'w datblygu erbyn mis Medi 2022 ac ystadegau cyfranogiad i'w hadrodd yn flynyddol gan bartneriaid cyflawni gyda'r targed i'w gyrraedd erbyn mis Mawrth 2027. | Partner cyflawni yn adrodd i Fforwm CDd | Mudiad Meithrin<br><br>Cymraeg i Blant<br><br>Coleg Caerdydd a'r Fro<br><br>Ysgolion cynradd Caerdydd<br><br>Menter Caerdydd<br><br>Yr Urdd<br><br>Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro<br><br>Comisiynydd y Gymraeg | **Deilliant 1** |
| **6**. Menter beilot i weithio'n ddwys mewn 2 ardal wahanol o'r ddinas ar ddwy ysgol gynradd sy'n profi gostyngiad yn nifer y plant sy'n chwilio am le yn y dosbarth derbyn/ meithrin | Nodi a chytuno ar gynllun peilot gyda dwy ysgol gynradd erbyn mis Medi 2024.<br><br>Lansio cynllun peilot ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/25. | Medi 2023<br><br>Mehefin 2024 | Cyflwyno adroddiadau partner i Fforwm CDd a Fforwm Addysg Gymraeg Cyngor Caerdydd. | Menter Caerdydd<br><br>Mudiad Meithrin<br><br>Yr Urdd<br><br>Ysgolion cynradd Cymraeg Caerdydd<br><br>Colegau a phrifysgolion Caerdydd | **Deilliannau 1 a 2** |

| Amcan | Targed | Amserlen | Ffynhonnell Adrodd | Partner(iaid) Cyflawni | Deilliant/ Deilliannau CSCA a Gefnogir |
|---|---|---|---|---|---|
| **7**. Cynnydd yn y ganran o'r bobl sy'n gallu siarad Cymraeg | Canlyniadau'r Cyfrifiad i ddangos bod 11.6 % o boblogaeth Caerdydd yn gallu siarad Cymraeg.<br><br>Cynnydd blynyddol sy'n gyson â'r nod o weld 13 % o boblogaeth Caerdydd yn gallu siarad Cymraeg erbyn 2027 i'w gadarnhau gan Arolwg Cenedlaethol Cymru a'r Arolwg Defnydd Iaith | Adroddiad y Cyfrifiad erbyn 2023.<br><br>Adroddiadau'n seiliedig ar Arolwg Cenedlaethol Cymru a'r Arolwg Defnydd Iaith i'w cyflwyno'n flynyddol yng nghyfarfod mis Mawrth y Fforwm gyda'r targed i'w gyrraedd erbyn mis Mawrth 2027. | Cyfrifiad Cenedlaethol<br><br>Arolwg Cenedlaethol Cymru a'r Arolwg Defnydd Iaith | Cyngor Caerdydd | |
| **8**. Ariannu, penodi a chynnal swydd Swyddog Hybu Addysg Gymraeg (ar draws Rhanbarth De-ddwyrain Cymru) | Cytuno ar y cais am gyllid gyda Llywodraeth Cymru.<br><br>Cytuno ar flaenoriaethau a dyletswyddau'r swydd gyda phartneriaid Fforwm CDd a phenodi'r swyddog.<br><br>Trefnu rheolwr llinell a chymorth yn y gweithle ar gyfer y swyddog. | Cyllid ar waith erbyn mis Ebrill 2022<br><br>Erbyn Medi 2022<br><br>Medi 2022 ymlaen | Cytundeb ariannu gyda Llywodraeth Cymru.<br><br>Partneriaid y Fforwm i gytuno ar ddisgrifiad swydd a manyleb person a chwblhau'r broses recriwtio'n llwyddiannus.<br><br>Y Mentrau i adrodd yn flynyddol i Fforwm CDd | Cyngor Caerdydd<br><br>Partneriaid y Fforwm<br><br>Mentrau Iaith De-ddwyrain Cymru | **Deilliannau 1, 2, 3, 4 a 7** |

Caerdydd **Ddwyieithog** **Bilingual** Cardiff

| Amcan | Targed | Amserlen | Ffynhonnell Adrodd | Partner(iaid) Cyflawni | Deilliant/ Deilliannau CSCA a Gefnogir |
|---|---|---|---|---|---|
| **9**. Cytuno a chyd-gyflwyno mentrau hybu addysg Gymraeg gyda sefydliadau sy'n cynrychioli cymunedau ethnig lleiafrifol | 2 fenter hyrwyddo i'w cynnal ar y cyd â sefydliadau sy'n cynrychioli cymunedau ethnig lleiafrifol yn flynyddol. | Mentrau hyrwyddo i ddechrau ym mis Medi 2023 | Partner cyflawni yn adrodd i Fforwm CDd | Cyngor Caerdydd<br><br>C3SC<br><br>Holl bartneriaid Fforwm CDd<br><br>Uned Drochi'r Gymraeg<br><br>Dalgylchoedd cynradd ac uwchradd Cymraeg Caerdydd | **Deilliannau 1, 2, 3, 4, 5 a 6** |
| **10**. Cynnydd yn nifer y lleoedd sydd ar gael mewn addysg gynradd ac uwchradd Gymraeg yng Nghaerdydd. | 23.2 % o ddisgyblion Dosbarth Derbyn yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn mis Ionawr 2027.<br><br>14.7 % o ddisgyblion Blwyddyn 7 yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2026/27. | Cynnydd i'w adrodd yn flynyddol ar ôl cyhoeddi'r adroddiad blynyddol ar y CSCA gyda'r targed i'w gyrraedd erbyn mis Mawrth 2027. | Adroddiad Blynyddol CSCA Cyngor Caerdydd | Cyngor Caerdydd | **Deilliannau 1, 2, 3, 4 a 6** |
| **11**. Cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol | 4.4 % o'r ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol yn i'w darparu drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2027 | Cynnydd i'w adrodd yn flynyddol ar ôl cyhoeddi'r adroddiad blynyddol ar y CSCA gyda'r targed i'w gyrraedd erbyn mis Mawrth 2027. | Adroddiad Blynyddol CSCA Cyngor Caerdydd | Cyngor Caerdydd | Deilliant 6 |

Caerdydd **Ddwyieithog** **Bilingual** Cardiff

| Amcan | Targed | Amserlen | Ffynhonnell Adrodd | Partner(iaid) Cyflawni | Deilliant/ Deilliannau CSCA a Gefnogir |
|---|---|---|---|---|---|
| **12**. Cynnydd yn nifer y disgyblion uwchradd sy'n astudio cymwysterau a asesir drwy gyfrwng y Gymraeg. | 14% o ddisgyblion uwchradd yn astudio cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2027. | Cynnydd i'w adrodd yn flynyddol ar ôl cyhoeddi'r adroddiad blynyddol ar y CSCA gyda'r targed i'w gyrraedd erbyn mis Mawrth 2027. | Adroddiad Blynyddol CSCA Cyngor Caerdydd | Cyngor Caerdydd | **Deilliant 3** |
| **13.** Cynnydd yn nifer y myfyrwyr sy'n astudio cyrsiau addysg bellach ac uwch drwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Datblygu a chydlynu ymgyrch i hyrwyddo addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg i fyfyrwyr addysg bellach ac uwch.<br><br>Archwilio cyfleoedd i ariannu Swyddog Pontio i gefnogi'r amcan a'r ymgyrch hyrwyddo. | 50% o fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg sy'n astudio ym mhrifysgolion a cholegau Caerdydd yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Lansio'r ymgyrch hyrwyddo erbyn mis Medi 2024.<br><br>Astudiaeth achos i'w datblygu a'i chyflwyno i bartneriaid Fforwm CDd erbyn mis Medi 2023. | Mawrth 2027<br><br>Medi 2024<br><br>Medi 2023 | Adroddiadau blynyddol colegau a phrifysgolion Caerdydd.<br><br>Cytuno ar yr ymgyrch yng nghyfarfod Fforwm CDd ym mis Medi 2024.<br><br>Cytuno ar astudiaeth achos yng nghyfarfod Fforwm CDd ym mis Medi 2023. | Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol<br><br>Coleg Caerdydd a'r Fro<br><br>Consortia Addysg<br><br>Prifysgol De Cymru<br><br>Prifysgol Caerdydd Prifysgol<br><br>Metropolitan Caerdydd<br><br>Coleg Cymraeg Cenedlaethol<br><br>Ysgolion uwchradd Cymraeg Caerdydd | **Deilliant 7** |

Caerdydd Ddwyieithog Bilingual Cardiff

| Amcan | Targed | Amserlen | Ffynhonnell Adrodd | Partner(iaid) Cyflawni | Deilliant/ Deilliannau CSCA a Gefnogir |
|---|---|---|---|---|---|
| **13**. Datblygu'r gweithlu addysg i gynyddu'r nifer sy'n dysgu Cymraeg fel pwnc ac yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys athrawon yn y sector addysg cyfrwng Saesneg sydd â'r gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn hyderus ac ar draws y cwricwlwm a staff arbenigol ychwanegol i gefnogi darpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg. | Parhau i fonitro data ac ymyrryd yn ôl yr angen. | Cynnydd i'w adrodd yn flynyddol i Fforwm CDd gyda'r targed i'w gyrraedd erbyn mis Mawrth 2027. | Adroddiadau blynyddol colegau a phrifysgolion Caerdydd. | Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol<br><br>Coleg Caerdydd a'r Fro<br><br>Consortia Addysg<br><br>Prifysgol De Cymru<br><br>Prifysgol Caerdydd<br><br>Prifysgol Metropolitan Caerdydd<br><br>Coleg Cymraeg Cenedlaethol | **Deilliannau 3, 4, 6 a 7** |
| Datblygu a darparu cymorth i athrawon o ysgolion Saesneg i uwchsgilio i'w galluogi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg gan gynnwys aelodaeth o'r cynllun Sabothol a chymorth hirdymor i ymarfer a gwella sgiliau iaith. | 10 o athrawon yn derbyn y cymorth hwn yn flynyddol o fis Medi 2024. | Darparu cymorth erbyn mis Medi 2024. | Adroddiadau blynyddol colegau a phrifysgolion Caerdydd. | | **Deilliannau 3, 4 a 7** |
| Hyrwyddo cynnig Llywodraeth Cymru i ddarparu gwersi Cymraeg am ddim i bobl ifanc 16-25 mlwydd oed ac i'r gweithlu addysg gyda phartneriaid Fforwm Caerdydd Ddwyieithog. | | Ebrill 2022 ac ymlaen | Cyfarfodydd Fforwm CDd ac wrth gyfathrebu â phartneriaid Fforwm CDd | | **Deilliannau 3, 4, 6 a 7** |

Caerdydd **Ddwyieithog** **Bilingual** Cardiff

## THEMA STRATEGOL 2: CYNYDDU'R DEFNYDD O'R GYMRAEG

**Meysydd Gwaith:**
1. **Y gweithlu,**
2. **Gwasanaethau,**
3. **Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg**

| Amcan | Targed | Amserlen | Ffynhonnell Adrodd | Partner(iaid) Cyflawni | Deilliant/ Deilliannau CSCA a Gefnogir |
|---|---|---|---|---|---|
| **1.** Yr holl dargedau ar gyfer Thema 2 i'w diwygio ar ôl derbyn data Cyfrifiad 2021 | Targedau a blaenoriaethau i'w hasesu ar ôl derbyn data'r Cyfrifiad a'u mireinio/addasu ymhellach. | Rhagwelir y bydd data'r Cyfrifiad yn cael ei gyhoeddi yn 2023 | Cyfrifiad 2021 | Cyngor Caerdydd | |
| **2.** Sefydlu Fforwm Ieuenctid Caerdydd Dwyieithog.<br><br>Holl bartneriaid Fforwm CDd i nodi un person ifanc i'w cynrychioli fel aelodau o'r Fforwm Ieuenctid.<br><br>Nodi a chadarnhau cyllid i ariannu gweithgarwch a digwyddiadau y cytunwyd arnynt gan Fforwm Ieuenctid Caerdydd Ddwyieithog.<br><br>Cefnogi aelodau'r Fforwm Ieuenctid i fod yn hyrwyddwyr Cymraeg ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol. | Poblogi'r Fforwm Ieuenctid a chynnig y cymorth angenrheidiol i sicrhau ei fod yn cyfarfod o 2022/23 ymlaen.<br><br>Galluogi'r Fforwm Ieuenctid i gynnal rhaglen o ddigwyddiadau bob blwyddyn drwy gynnig cyllideb ddigwyddiadau.<br><br>Cysylltu rhaglen ddigwyddiadau'r Fforwm Ieuenctid a rhaglenni ariannu digwyddiadau eraill fel 'Noson Allan' Cyngor Celfyddydau Cymru ac 'Awduron ar Daith' Llenyddiaeth Cymru. | Ebrill 2022<br><br>Ebrill 2023<br><br>Ebrill 2023 | Partner cyflawni yn adrodd i Fforwm CDd | Cyngor Caerdydd<br><br>Cyngor Celfyddydau Cymru<br><br>Yr Urdd<br><br>Menter Caerdydd<br><br>Llenyddiaeth Cymru<br><br>Holl Bartneriaid Fforwm CDd | **Deilliannau 3, 4 a 5** |

Caerdydd **Ddwyieithog** **Bilingual** Cardiff

| Amcan | Medi Targed | Amserlen | Ffynhonnell Adrodd | Partner(iaid) Cyflawni | Deilliant/ Deilliannau CSCA a Gefnogir |
|---|---|---|---|---|---|
| **3.** Cynnal ymarfer mapio ar gyfer darpariaeth plant a phobl ifanc cyfrwng Cymraeg Cyngor Caerdydd i nodi bylchau posibl yn y ddarpariaeth a mynd i'r afael â hwy drwy gamau gweithredu a chyllid. | Adroddiad cynhwysfawr o'r gwasanaethau plant a phobl ifanc cyfrwng Cymraeg a ddarperir gan y Cyngor.<br><br>Cyflwyno canfyddiadau'r ymarfer mapio i Fforwm Caerdydd Dwyieithog.<br><br>Nodi cyfleoedd i ddatblygu darpariaeth ychwanegol i fynd i'r afael â bylchau a nodwyd. | Awst 2022<br><br>Medi 2022<br><br>Ebrill 2023 | Ymarfer mapio Cyngor Caerdydd | Cyngor Caerdydd | |
| **4.** Datblygu rhwydwaith o genhadon sydd eisoes wedi derbyn addysg Gymraeg i hyrwyddo'r iaith a mynediad i ysgolion cynradd ac uwchradd Caerdydd.<br><br>Cefnogi'r cenhadon drwy eu gwahodd i gwrdd â theuluoedd i hyrwyddo addysg Gymraeg.<br><br>Datblygu adnoddau ategol (e.e. cyfweliadau â llysgenhadon) i'w cyflwyno fel adnoddau digidol a thrwy gyfrifon cyfryngau cymdeithasol Partneriaid CDd a gwasanaethau'r Cyngor (e.e. derbyn i ysgolion, y blynyddoedd cynnar).<br><br>Datblygu ymgyrch ar y cyd â'r cenhadon a phartneriaid Fforwm CDd i hyrwyddo addysg Gymraeg gyda chynulleidfaoedd amlieithog. | Pob partner i nodi cenhadon a fydd yn apelio at gymunedau ledled Caerdydd er mwyn cynyddu mynediad i addysg Gymraeg.<br><br>Datblygu a chytuno ar raglen ymgysylltu â theuluoedd.<br><br>Nodi a chytuno ar gyllideb i gefnogi'r gwaith o gynhyrchu adnoddau.<br><br>Nodi sefydliadau cynrychioliadol i gefnogi a chytuno ar yr ymgyrch ymgysylltu. | Medi 2023<br><br>Medi 2024<br><br>Medi 2024<br><br>Medi 2025 | Partner cyflawni yn adrodd i Fforwm CDd<br><br>Cytuno ar y rhaglen ymgysylltu yng nghyfarfod Fforwm CDd ym mis Medi 2024<br><br>Cyllideb i'w nodi a chytuno yng nghyfarfod Fforwm CDd ym mis Medi 2024.<br><br>Cytuno ar y rhaglen ymgysylltu yng nghyfarfod Fforwm CDd ym mis Medi 2025 | Cyngor Caerdydd<br><br>Menter Caerdydd<br><br>Dalgylchoedd cynradd ac uwchradd Cymraeg Caerdydd<br><br>Colegau a phrifysgolion Caerdydd<br><br>Yr Urdd<br><br>Holl bartneriaid Fforwm CDd | **Deilliannau 1, 2, 3 a 4** |

| Amcan | Targed | Amserlen | Ffynhonnell Adrodd | Partner(iaid) Cyflawni | Deilliant/ Deilliannau CSCA a Gefnogir |
|---|---|---|---|---|---|
| **5.** Cynyddu gweithgarwch gydag ysgolion 'ail iaith' i ffurfio clybiau, cynnal gweithdai ac annog gweithgareddau'n uniongyrchol gyda'r ysgolion. | Datblygu partneriaethau strategol rhwng partneriaid Fforwm CDd, Fforwm Addysg Gymraeg Cyngor Caerdydd ac ysgolion i gefnogi darpariaeth hirdymor drwy gyfrwng y Gymraeg. | Medi 2024 | Partner cyflawni yn adrodd i Fforwm CDd | Cyngor Caerdydd<br><br>Menter Caerdydd<br><br>Yr Urdd<br><br>Llenyddiaeth Cymru<br><br>Canolfan y Mileniwm<br><br>Cyngor Celfyddydau Cymru<br><br>Ysgolion cynradd ac uwchradd Caerdydd | **Deilliannau 3, 4 a 5** |
| **6.** Cynnal digwyddiad 'Gyrfa Gymraeg' blynyddol i rannu gwybodaeth am yr ystod eang o gyrsiau addysg bellach a all arwain at swydd Gymraeg. | Cytuno i'w gynnal fel digwyddiad ar wahân neu fel rhan o ffair swyddi ehangach.<br><br>Nodi cyllid ar gyfer y digwyddiad er mwyn sicrhau y gall fod yn ddigwyddiad blynyddol.<br><br>Cynnal digwyddiad Gyrfa Gymraeg. | Mawrth 2022<br><br>Medi 2022<br><br>Erbyn mis Mawrth 2023 ac yna'n flynyddol. | Partner cyflawni yn adrodd i Fforwm CDd | Cyngor Caerdydd<br><br>Menter Caerdydd<br><br>Ysgolion Uwchradd Cymraeg Caerdydd<br><br>Colegau a Phrifysgolion Caerdydd<br><br>Addewid Caerdydd | **Deilliannau 5 a 7** |
| **7.** Cynnydd yn nifer staff Cyngor Caerdydd sydd â gallu yn y Gymraeg. | Cynyddu nifer y staff sydd a sgiliau Cymraeg yng ngweithlu'r Cyngor i 20% o'r gweithlu erbyn 2027. | Mawrth 2027 | Adroddiad Blynyddol Cyngor Caerdydd ar Safonau'r Gymraeg | Cyngor Caerdydd | |

Caerdydd Ddwyieithog Bilingual Cardiff

| Amcan | Targed | Amserlen | Ffynhonnell Adrodd | Partner(iaid) Cyflawni | Deilliant/ Deilliannau CSCA a Gefnogir |
|---|---|---|---|---|---|
| **8.** Cynnydd yn nifer staff Cyngor Caerdydd sy'n derbyn hyfforddiant Cymraeg. | Cynyddu nifer staff y Cyngor sydd wedi derbyn hyfforddiant Cymraeg i 50 % o'r gweithlu erbyn 2027. | Mawrth 2027 | Adroddiad Blynyddol Cyngor Caerdydd ar Safonau'r Gymraeg | Cyngor Caerdydd | |
| **9.** Datblygu a chynnal ymgyrch i rannu arfer gorau wrth gynyddu canran y gweithlu sy'n siarad Cymraeg a/neu sydd wedi derbyn hyfforddiant Cymraeg. | Cynnydd yn nifer staff Partneriaid Fforwm CDd sy'n siarad Cymraeg a chynnydd yn nifer y gweithluoedd hynny sy'n ymuno â chyrsiau hyfforddi cyfrwng Cymraeg. | Mawrth 2024 | Partner cyflawni yn adrodd i Fforwm CDd | Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol<br><br>Cyngor Caerdydd<br><br>Colegau a Phrifysgolion Caerdydd | |
| **10.** Cynnal Tafwyl bob blwyddyn i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a denu cymunedau Cymraeg a di-Gymraeg i gymdeithasu ac ymgysylltu â'r Gymraeg, y sîn gerddoriaeth Gymraeg, llenyddiaeth, chwaraeon a diwylliant Cymru. | Cynnal Tafwyl bob blwyddyn. | Blynyddol | Adroddiad Tafwyl Menter Caerdydd | Menter Caerdydd | **Deilliant 5** |

Caerdydd Ddwyieithog Bilingual Cardiff

## THEMA STRATEGOL 3: CREU AMODAU FFAFRIOL: SEILWAITH A CHYD-DESTUN

**Meysydd Gwaith:**

1. **Cymuned a'r economi,**
2. **Diwylliant a'r cyfryngau,**
3. **Cymru a'r byd ehangach,**
4. **Technoleg ddigidol,**
5. **Seilwaith ieithyddol,**
6. **Cynllunio ieithyddol,**
7. **Gwerthuso ac ymchwil**

| Amcan | Targed | Amserlen | Ffynhonnell Adrodd | Partner(iaid) Cyflawni | Deilliant/ Deilliannau CSCA a Gefnogir |
|---|---|---|---|---|---|
| **1.** Yr holl dargedau ar gyfer Thema 3 i'w diwygio ar ôl derbyn data Cyfrifiad 2021. | Targedau a blaenoriaethau i'w hasesu ar ôl derbyn data'r Cyfrifiad a'u mireinio/addasu ymhellach. | Rhagwelir y bydd data'r Cyfrifiad yn cael ei gyhoeddi yn 2023 | Cyfrifiad 2021 | Cyngor Caerdydd | |
| **2.** Ehangu aelodaeth Fforwm Caerdydd Ddwyieithog i gynnwys:<br><br>i) swyddogion o'r Cyngor i rannu gwybodaeth ac arfer da a sicrhau cyd-ddealltwriaeth o nodau;<br><br>ii) sylfaen ehangach o bartneriaid e.e. busnes ac economi. | Fforwm Caerdydd Ddwyieithog i nodi a chytuno ar aelodau ychwanegol. | Mehefin 2022 | Cofnodion Fforwm Caerdydd Ddwyieithog | Cyngor Caerdydd | |
| **3.** Creu slogan ar gyfer Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog a'r weledigaeth. | Creu a chytuno ar slogan i farchnata Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022/27. | Erbyn Ebrill 2022 | Cytundeb yng nghyfarfod Fforwm CDd ym mis Mawrth 2022 | Llenyddiaeth Cymru<br><br>Cyngor Caerdydd<br><br>Holl bartneriaid Fforwm CDd | |

Caerdydd **Ddwyieithog** **Bilingual** Cardiff

| Amcan | Targed | Amserlen | Ffynhonnell Adrodd | Partner(iaid) Cyflawni | Deilliant/ Deilliannau CSCA a Gefnogir |
|---|---|---|---|---|---|
| **4.** Creu a chynnal gweithgareddau celfyddydol i blant er mwyn cefnogi a hyrwyddo Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog | Cynnydd yn nifer y digwyddiadau a phrosiectau celfyddydol a ddarperir gan bartneriaid y Fforwm a chynnydd yn nifer y plant sy'n eu mynychu. | Rhaglen weithgareddau i'w chytuno erbyn mis Mawrth 2023. | Partner cyflawni yn adrodd i Fforwm CDd | Cyngor Celfyddydau Cymru<br><br>Llenyddiaeth Cymru<br><br>Menter Caerdydd<br><br>Canolfan Mileniwm Cymru<br><br>Ysgolion Caerdydd<br><br>Yr Urdd | **Deilliant 5** |
| **5.** Cynyddu ymwybyddiaeth o'r ddarpariaeth, y cyfleoedd a'r mynediad i'r celfyddydau yn y Gymraeg yng Nghaerdydd ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd.<br><br>Datblygu a chytuno ar raglen o weithgarwch celfyddydol yn y Gymraeg wedi'i hanelu at oedolion a phobl hŷn.<br><br>Darparu sesiynau darllen ac ysgrifennu creadigol cyfrwng Cymraeg yn llyfrgelloedd a hybiau dinas Caerdydd. | Partneriaid cyflawni i gyflwyno gwybodaeth am weithgarwch celfyddydol yn Gymraeg i'w rhannu â phartneriaid y Fforwm.<br><br>6 digwyddiad i'w cynnal yn flynyddol.<br><br>6 sesiwn i'w cynnal yn flynyddol. | Ebrill 2022<br><br>Ebrill 2024<br><br>Mawrth 2023 | Partner cyflawni yn adrodd i Fforwm CDd<br><br>Partner cyflawni yn adrodd i Fforwm CDd<br><br>Partner cyflawni yn adrodd i Fforwm CDd | Cyngor Celfyddydau Cymru<br><br>Llenyddiaeth Cymru<br><br>Menter Caerdydd<br><br>Merched y Wawr<br><br>Canolfan Mileniwm Cymru<br><br>Yr Urdd<br><br>Cyngor Caerdydd | **Deilliannau 3, 4 a 5** |

Caerdydd Ddwyieithog Bilingual Cardiff

| Amcan | Targed | Amserlen | Ffynhonnell Adrodd | Partner(iaid) Cyflawni | Deilliant/ Deilliannau CSCA a Gefnogir |
|---|---|---|---|---|---|
| **6.** Cynyddu cydweithrediad celfyddydol â blynyddoedd 12 a 13 mewn Ysgolion Uwchradd a gydag Israddedigion yng Ngholegau a Phrifysgolion Caerdydd | Cytuno ar raglen waith rhwng y partneriaid cyflawni a chynnal gweithgarwch cydweithredol o ddechrau blwyddyn academaidd 2023/24. | Medi 2023 | Partner cyflawni yn adrodd i Fforwm CDd | Colegau a Phrifysgolion Caerdydd<br><br>Ysgolion Uwchradd Cymraeg Caerdydd | **Deilliannau 4 a 5** |
| **7.** Datblygu, creu a dylunio cylchlythyr misol o gyfleoedd cyflogaeth Cymraeg a datblygu sgiliau gwaith yn y ddinas, o wirfoddoli i swyddi llawn amser. | 12 cylchlythyr misol wedi'u paratoi a'u fformatio i'w rhannu â'r partneriaid. | Ebrill 2022 | Pob partner i dderbyn cylchlythyr misol i'w rannu â'i rwydwaith. | Y Dinesydd<br><br>Holl Bartneriaid Fforwm CDd | **Deilliannau 5 a 7** |
| **8.** Cytuno a rhannu canllaw arfer da ynghylch y defnydd o'r Gymraeg ac ystyriaethau Cymraeg at ddefnydd datblygwyr tai, cymdeithasau tai, cwmnïau adeiladu, cwmnïau diogelwch ac ati sy'n gweithio gyda Chyngor Caerdydd. | Dosbarthu'r canllaw i bartneriaid y Cyngor ac annog defnydd ac ystyriaeth gynhwysfawr o'r Gymraeg.<br><br>Atgyfnerthu awgrym y Cyngor y dylid rhoi enw Cymraeg i bob datblygiad a phrosiect tai yng Nghaerdydd – mae hyn yn cynnwys yr enw answyddogol a ddefnyddir ar gyfer marchnata rhagarweiniol ac enw swyddogol terfynol y datblygiad neu'r prosiect. | Medi 2022 | Y llawlyfr i'w rannu â phartneriaid y Fforwm. | Cyngor Caerdydd<br><br>Menter Caerdydd<br><br>Holl bartneriaid Fforwm CDd | |

Caerdydd Ddwyieithog Bilingual Cardiff

| Amcan | Targed | Amserlen | Ffynhonnell Adrodd | Partner(iaid) Cyflawni | Deilliant/ Deilliannau CSCA a Gefnogir |
|---|---|---|---|---|---|
| **9.** Cynnal a hyrwyddo rhestr enwau strydoedd y Cyngor a'i rhannu'n fewnol (e.e. mapiau ishare a rhestr gyfeiriadau) ac yn allanol (Arolwg Ordnans, Swyddfa'r Post ac ati). | Trosglwyddo enwau strydoedd i adnoddau'r cyngor a chyrff allanol perthnasol.<br><br>Cryfhau'r Polisi Enwi Strydoedd y Cyngor i gymhwyso ei egwyddorion o ran gofodau a rennir i gynnwys enwi parciau, gofodau gwyrdd, coetiroedd, gorsafoedd trafnidiaeth, llwybrau troed a llwybrau beicio, ac adeiladau a datblygiadau newydd sy'n eiddo i'r Cyngor.<br><br>Ymgysylltu ag ysgolion lleol (yn enwedig ysgolion a fydd yn gwasanaethau'r ardaloedd yn y Cynllun Datblygu Lleol newydd) i ennyn perchnogaeth dros enwau strydoedd Cymraeg yn eu dalgylchoedd. | Mawrth 2023<br><br>Ebrill 2023<br><br>Ymgysylltu ag ysgolion yng Ngogledd-ddwyrain Caerdydd erbyn diwedd 2023 ag ysgolion yn Ngogledd-orllewin Caerdydd erbyn 2025. | PPartner cyflawni yn adrodd i Fforwm CDd<br><br>Adolygu ac ehangu Polisi Enwi Strydoedd y Cyngor<br><br>Partner cyflawni yn adrodd i Fforwm CDd | Cyngor Caerdydd<br><br>Comisiynydd y Gymraeg<br><br>Ysgolion gynradd ac uwchradd Caerdydd | |
| **10.** Creu pecyn gwybodaeth gydol oes am weithgarwch ac adnoddau Cymraeg yng Nghaerdydd. | Cytuno ar y pecyn terfynol a'i hyrwyddo i gymunedau ledled Caerdydd. | Medi 2022 | Cytuno ar y pecyn gwybodaeth yng nghyfarfod Fforwm CDd Medi 2022 | Menter Caerdydd | **Pob Deilliant** |
| **11.** Gweithio mewn partneriaeth â chwmnïau technoleg gwybodaeth i eirioli dros ddatblygu a darparu rhaglenni ac adnoddau sy'n cefnogi'r Gymraeg. | Sicrhau bod rhaglenni ac adnoddau technoleg gwybodaeth yn cefnogi darpariaeth Gymraeg. | Mawrth 2027 | Partner cyflawni yn adrodd i Fforwm CDd | Cyngor Caerdydd<br><br>Comisiynydd y Gymraeg<br><br>Colegau a phrifysgolion Caerdydd | |
| **12.** Datblygu a chyhoeddi Polisi Grantiau | Datblygu Polisi Grantiau Cyngor Caerdydd i fodloni'r gofynion o dan Safonau'r Gymraeg | Mawrth 2022 | | Cyngor Caerdydd | |

Caerdydd **Ddwyieithog** **Bilingual** Cardiff

| Amcan | Targed | Amserlen | Ffynhonnell Adrodd | Partner(iaid) Cyflawni | Deilliant/ Deilliannau CSCA a Gefnogir |
|---|---|---|---|---|---|
| **13.** Asesu effeithiolrwydd ymyriadau Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog. | Asesu effaith yr ymyriadau a ddisgrifir yng nghynllun gweithredu Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog a mesur llwyddiant o ran cefnogi themâu Cymraeg 2050 gan gyfeirio at arweiniad Comisiynydd y Gymraeg ac arfer gorau partneriaid Fforwm Caerdydd Dwyieithog. | Ebrill 2023 ac yn flynyddol wedi hynny. | Mae Cyngor Caerdydd a Fforwm Caerdydd Dwyieithog yn adrodd ar weithrediad a'r gwaith o gwblhau'r camau gweithredu a ddisgrifir yng nghynllun gweithredu Caerdydd Ddwyieithog. | Cyngor Caerdydd | |
| **14.** Adolygu canllaw Cyngor Caerdydd i 3ydd partïon ar weithredu Safonau'r Gymraeg | Diweddaru a diwygio'r canllaw 3ydd partïon a chynnwys adran ar ofynion Safonau'r Gymraeg mewn perthynas â thendro. | Ebrill 2022 | Cyhoeddi canllaw 3ydd partïon diwygiedig | Cyngor Caerdydd | |
| **15.** Gwella statws y Gymraeg yng Nghaerdydd drwy gynyddu ei hamlygrwydd gyda brandio Bws Caerdydd a Thacsis. | Gweithio mewn partneriaeth ag adrannau a thimau perthnasol y Cyngor i gyflwyno'r term 'Tacsi' ar yr arwyddion ar gyfer fflyd newydd Caerdydd o dacsis gwyrddach.<br><br>Cynyddu'r defnydd o frandio Cymraeg a'i amlygrwydd ar fflyd Bws Caerdydd.<br><br>Ymchwilio i ba mor ymarferol fyddai cynnwys gofynion sy'n ymwneud â defnyddio'r term 'Tacsis' yn yr amodau sy'n cefnogi grantiau Cyngor Caerdydd i ddisodli tacsis hŷn am fodelau gwyrddach | Ebrill 2023<br><br>Ebrill 2023<br><br>Ebrill 2023 | Newid mewn amodau trwyddedu i gynnwys y gofyniad hwn.<br><br>Cytundeb gyda Bws Caerdydd.<br><br>Cynnwys gofynion mewn amodau grant perthnasol. | Cyngor Caerdydd | |

Caerdydd Ddwyieithog
Bilingual Cardiff

# ATODIAD II – PRIF BARTNERIAID

Fel strategaeth ar gyfer y Ddinas gyfan, mae llwyddiant gweledigaeth Caerdydd Ddwyieithog fel y'i hamlinellir yn y strategaeth hon yn dibynnu ar gydweithio gyda'n partneriaid a'n rhanddeiliaid. Mae'r holl bartneriaid arweiniol canlynol wedi cytuno i roi'r cynllun ar waith a monitro cynnydd yn erbyn camau gweithredu perthnasol y cynllun gweithredu.

## Cyngor Celfyddydau Cymru

Sefydlwyd Cyngor Celfyddydau Cymru yn 1994 a dyma'r corff swyddogol sy'n ariannu ac yn datblygu'r celfyddydau yng Nghymru. Wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru a'r Loteri Genedlaethol, mae'n cefnogi artistiaid a sefydliadau celfyddydol sy'n cynnal rhaglenni gwaith ledled Cymru er mwyn gwneud y celfyddydau'n ganolog i fywyd a lles y genedl.

## Rygbi Caerdydd

Rygbi Caerdydd yw un o bedwar tîm rygbi rhanbarthol proffesiynol Cymru. Wedi'i leoli yng Nghaerdydd, prifddinas Cymru, mae'r tîm yn chwarae ym Mharc yr Arfau Caerdydd ac yn eiddo i Cardiff Rugby Ltd, sydd hefyd yn berchen ar ac yn rhedeg Clwb Rygbi Caerdydd. Rhwng 2003 a 2021 roedd y clwb yn cael ei adnabod fel Gleision Caerdydd cyn newid yr enw i Rygbi Caerdydd cyn dechrau tymor 2021-22.

## Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd

Fel rhan o weithrediad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau). Mae BGCau yn dod â chyrff cyhoeddus a thrydydd sector ynghyd i weithio mewn partneriaeth i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.

Mae aelodau statudol BGC fel a ganlyn:

- Cyngor Dinas Caerdydd
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru

Rhaid i aelodau'r Bwrdd hefyd gynnwys nifer o bartneriaid eraill sy'n cyfrannu at ei weithgareddau fel 'cyfranogwyr a wahoddir'. Mae cynrychiolwyr y canlynol yn rhan o BGC Caerdydd:

- Gweinidogion Cymru
- Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru
- Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol
- Cyngor Trydydd Sector Caerdydd

Caerdydd Ddwyieithog Bilingual Cardiff

Gall partneriaid eraill sy'n cyflawni swyddogaethau o natur gyhoeddus hefyd fod yn rhan o'r gwaith.

Mae dyletswydd ar BGCau dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i asesu lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yr ardal leol a llunio cynllun lles lleol yn nodi amcanion lles a fydd yn cyfrannu at gyflawni 7 nod lles Llywodraeth Cymru. Ceir rhagor o wybodaeth am y nodau hyn yma.

## Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn sefydliad sydd wedi'i wreiddio yng Nghymru ac mae'n cynnig addysg i fyfyrwyr sy'n canolbwyntio ar ymarfer ac sydd â gwedd broffesiynol. Mae ei weledigaeth yn deillio o'i hymrwymiad i addysg. Cynhelir ymchwil ac arloesi mewn partneriaeth â myfyrwyr, llywodraethau, busnes a diwydiant i ddarparu manteision pendant i unigolion, cymdeithas a'r economi.

Mae Met Caerdydd wedi ymrwymo i sicrhau bod pob myfyriwr yn cyflawni ei botensial i wneud cyfraniadau rhagorol ar lefel raddedig, i'w genhedlaeth ei hun a chenedlaethau'r dyfodol.

## Cyngor Trydydd Sector Caerdydd (C3SC)

Mae Cyngor Trydydd Sector Caerdydd yn bodoli i gefnogi a datblygu trydydd sector Caerdydd.  Gan weithio gyda Llywodraeth Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC), mae wedi ymrwymo i gynyddu gwybodaeth a sgiliau'r sector er mwyn sicrhau y gall grwpiau a sefydliadau yng Nghaerdydd wneud eu hunain yn gynaliadwy a diwallu anghenion eu cymunedau.

## Prifysgol Caerdydd (Ysgol y Gymraeg)

Mae Ysgol y Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd yn uned academaidd o'r radd flaenaf sydd ag enw da byd-eang. Mae'n arbenigo mewn amrywiaeth o feysydd sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg a'i diwylliant, gan gynnwys llenyddiaeth, ieithyddiaeth, cymdeithaseg iaith, cyfieithu, addysg, cynllunio a pholisi.  Mae ganddi gysylltiadau rhyngwladol cryf, yn arbennig gyda gwledydd sy'n gartref i ieithoedd lleiafrifol, fel Canada, Catalonia, Gwlad y Basg ac Iwerddon.  Mae staff yr ysgol hefyd yn arbenigo mewn agweddau amrywiol ar y Gymraeg a'i diwylliant yng Nghaerdydd a'r cyffiniau.

Mae arolygon cenedlaethol yn dangos bod yr Ysgol yn rhagori mewn addysgu, ymchwil ac effaith ei hymchwil y tu allan i'r maes academaidd. Mae'n cynnig addysg o'r radd flaenaf o lefel israddedig i lefel PhD. Mae Cymraeg i Oedolion Caerdydd yn rhan o'r Ysgol, ac mae'n darparu cyrsiau i fwy na 2,000 o fyfyrwyr yn y brifddinas. Mae'r Ysgol hefyd yn gyfrifol am y cynllun Cymraeg i Bawb (sy'n rhoi'r cyfle i gannoedd o fyfyrwyr Prifysgol Caerdydd ddysgu Cymraeg am ddim) ac mae'n un o ganolfannau'r Cynllun Sabothol Cenedlaethol (sy'n datblygu sgiliau Cymraeg ymarferwyr addysg).

Mae Ysgol y Gymraeg yn rhan o Brifysgol Caerdydd, sy'n brifysgol uchelgeisiol ac arloesol â gweledigaeth feiddgar a strategol. Mae Prifysgol Caerdydd yn aelod o Grŵp Russell, a daeth yn y 154fed safle yn Netholion Prifysgolion Gorau'r Byd QS 2020. Gosodwyd ansawdd ei hymchwil arloesol yn y 6ed safle ymhlith prifysgolion y DU yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2020. Mae'r brifysgol yn cynnig profiad addysgol rhagorol i'w myfyrwyr.Mae Prifysgol Caerdydd, wedi'i llywio gan greadigrwydd a chwilfrydedd, yn gwneud popeth yn ei gallu i gyflawni ei rhwymedigaethau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd i Gaerdydd, Cymru a'r byd.

## Coleg Caerdydd a'r Fro

Mae Coleg Caerdydd a'r Fro yn un o'r colegau mwyaf yn y DU, gan ddarparu addysg a hyfforddiant o safon uchel ledled Prifddinas-ranbarth Cymru.

Mae gan Goleg Caerdydd a'r Fro dros 30,000 o ddysgwyr y flwyddyn sy'n astudio cyrsiau coleg llawn-amser a rhan-amser ac yn dilyn cymwysterau prifysgol a rhaglenni prentisiaeth, ynghyd â darpariaeth hyfforddiant i gyflogwyr.

Mae'n datblygu pobl fedrus a chyflogadwy – gyda rhai o'r cyfraddau llwyddiant myfyrwyr gorau yn y sector a ffocws ar brofiadau sy'n sicrhau bod dysgwyr yn creu argraff ac yn symud ymlaen.

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn un o fyrddau iechyd lleol GIG Cymru. Daeth i fodolaeth ar 1 Hydref 2009 drwy gyfuno tri sefydliad GIG yn ardal Caerdydd a Bro Morgannwg. Y tri sefydliad a gyfunwyd oedd: Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro, sy'n cyflogi 12,000 o staff ac a fu'n flaenorol yn gyfrifol am wasanaethau ysbyty yn ardal Caerdydd a Bro Morgannwg; Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd; a Bwrdd Iechyd Lleol Bro Morgannwg sydd ill dau yn gyfrifol am wasanaethau meddyg teulu, deintyddol, optegol a fferylliaeth. Mae pencadlys y Bwrdd yn Ysbyty Athrofaol Cymru, yng Nghaerdydd.

## Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn gweithio drwy ganghennau sydd wedi'u lleoli mewn saith prifysgol yng Nghymru. Nod y canghennau yw cefnogi gwaith y Coleg a gweithredu fel pwynt cyswllt lleol i fyfyrwyr.

Mae'r dewis o gyrsiau Cymraeg wedi ehangu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Ar hyn o bryd mae dros 1,000 o gyrsiau i fyfyrwyr Cymraeg, ynghyd â dros 150 o ysgoloriaethau israddedig sy'n cael eu rhoi i fyfyrwyr bob blwyddyn.

Mae gwaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cynnwys:

- Sicrhau mwy o gyfleoedd astudio i fyfyrwyr Cymraeg - mewn partneriaeth â'r prifysgolion
- Hyfforddi, datblygu ac ariannu darlithwyr Cymraeg ar gyfer y dyfodol
- Ariannu ysgoloriaethau israddedig ac ôl-raddedig
- Cefnogi myfyrwyr sy'n astudio cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg
- Cynyddu nifer y myfyrwyr sy'n dewis astudio eu cwrs cyfan neu ran o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg
- Datblygu modiwlau, cyrsiau ac adnoddau o ansawdd ar gyfer myfyrwyr Cymraeg eu hiaith.

## Colegau Cymru

Colegau Cymru yw'r elusen addysgol genedlaethol sy'n cynrychioli 14 o golegau addysg bellach (AB) a sefydliadau AB dynodedig Cymru. Mae'r Bwrdd yn cynnwys penaethiaid colegau a chadeiryddion corfforaethau, a benodir gan golegau sy'n aelodau. Mae hefyd yn gweithio'n agos gydag amrywiaeth o bartneriaid yn y maes addysg, hyfforddiant a sgiliau ôl-16.

## Consortiwm Addysg Canolbarth y De

Sefydlwyd Consortiwm Canolbarth y De (CCD) ym mis Medi 2012. Mae'n Wasanaeth Addysg ar y Cyd ar gyfer pum awdurdod lleol:

- Pen-y-bont ar Ogwr
- Caerdydd
- Merthyr Tudful
- Rhondda Cynon Taf
- Bro Morgannwg

Comisiynir y consortiwm gan - ac mae'n gweithredu ar ran - y pum awdurdod lleol i ddatblygu gwasanaeth gwella ysgolion sy'n herio, monitro a chefnogi ysgolion i godi safonau.

## Clwb Ifor Bach

Mae Clwb Ifor Bach yn lleoliad cerddoriaeth fyw, clwb nos a hyrwyddwr yng nghanol dinas Caerdydd ar Stryd Womanby sy'n croesawu artistiaid rhyngwladol, lleol a rhai sy'n dod i'r amlwg, ac mae wedi bod yn llwyfan cynnar i rai o enwau mwyaf y byd cerddoriaeth.

Ers ei sefydlu ym 1983, mae Clwb Ifor Bach wedi bod yn ganolbwynt cerddorol i Gaerdydd a Chymru, gan groesawu pob arddull a genre cerddorol o bob cwr o'r byd drwy ei ddrysau.

## Y Dinesydd

Mae Y Dinesydd yn bapur bro misol ar gyfer Caerdydd, a sefydlwyd ym mis Hydref 1973.

## Eisteddfod Genedlaethol Cymru

Mae Eisteddfod Genedlaethol Cymru'n un o wyliau diwylliannol mwyaf y byd ac fe'i cynhelir bob blwyddyn yn wythnos gyntaf Awst. Mae'n cael ei chynnal yng ngogledd a de Cymru am yn ail. Cynhaliwyd yr Eisteddfod ddiwethaf yng Nghaerdydd yn 2018.

Mae'r ŵyl, sy'n denu 150,000 o ymwelwyr, yn dathlu'r Gymraeg a diwylliant Cymru mewn ffordd gynhwysol ac eclectig. Gwnaed llawer o waith dros y ddegawd ddiwethaf i ddatblygu'r ŵyl fel digwyddiad hygyrch i'r teulu cyfan, sy'n datblygu ac yn newid o flwyddyn i flwyddyn wrth ymweld â rhannau gwahanol o Gymru.

## Llenyddiaeth Cymru

Llenyddiaeth Cymru yw'r cwmni cenedlaethol ar gyfer datblygu llenyddiaeth yng Nghymru. Mae'n credu bod llenyddiaeth ar gyfer pawb ac y gellir dod o hyd iddi yn unrhyw le. Mae prosiectau a gweithgareddau amrywiol y sefydliad yn cynnwys Llyfr y Flwyddyn Cymru, Bardd Cenedlaethol Cymru, Bardd Plant Cymru a Bardd Llawryfog y Bobl Ifanc, mentrau Twristiaeth Lenyddol, y cynllun ariannu Ysgrifenwyr ar Daith, cyrsiau ysgrifennu creadigol yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd, Gwasanaethau i Ysgrifenwyr (gan gynnwys Bwrsariaethau a Mentora) a Charfannau Ysgrifennu Pobl Ifanc.

Y Prif Weithredwr yw Lleucu Siencyn. Mae Llenyddiaeth Cymru yn elusen gofrestredig ac yn Gwmni Cyfyngedig drwy Warant ac mae'n gweithio gyda chefnogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru.

## Menter Caerdydd

Sefydlwyd Menter Caerdydd ym mis Mehefin 1998 gyda'r nod o hyrwyddo ac ehangu'r defnydd o'r Gymraeg yng Nghaerdydd drwy greu cyfleoedd i drigolion y ddinas ddefnyddio'r iaith y tu allan i'r gwaith a'r ysgol. Heddiw, Menter Caerdydd yw un o Fentrau Iaith mwyaf llwyddiannus Cymru, gyda mwy na 40,000 o ddefnyddwyr.

Mae Menter Caerdydd yn cynnig gwasanaethau drwy weithio mewn partneriaeth â nifer o sefydliadau Cymraeg yng Nghaerdydd, yn ogystal â sefydliadau eraill y mae eu ffocws y tu hwnt i gynnig gweithgareddau Cymraeg. Prif bartneriaid Menter Caerdydd yw Llywodraeth Cymru a Chyngor Dinas Caerdydd, sy'n gyfrifol am ariannu nifer o wasanaethau sy'n cael eu cynnig yn Gymraeg yn y Ddinas. Mae'n elusen gofrestredig ac yn Gwmni Cyfyngedig drwy Warant.

Mae gwaith craidd Menter Caerdydd yn cynnwys chwe blaenoriaeth, sef:

- Hyrwyddo a chreu cyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg.
- Magu hyder a newid agwedd pobl tuag at y Gymraeg.
- Atgyfnerthu’r Gymraeg a’r defnydd ohoni o fewn teuluoedd.
- Datblygu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant i bobl ifanc ac oedolion.
- Datblygu Gwyliau Cymraeg i godi ymwybyddiaeth o’r Gymraeg.
- Sicrhau bod gan y Gymraeg blatfform amlwg ar lefel ddigidol.

Mae gwasanaethau a gweithgareddau Menter Caerdydd yn cynnwys Cydlynu cyfleoedd Hyfforddiant a Gwirfoddoli i fyfyrwyr 16+ yn Gymraeg, cydlynu Tafwyl - gŵyl Gymraeg Caerdydd, trefnu clybiau wythnosol i blant, cyfleoedd chwarae a gweithdai am ddim a Chynlluniau Gofal yn ystod y gwyliau, trefnu cyfleoedd cymdeithasol a gweithgareddau i ddysgwyr a theuluoedd, ac arwain Fforwm Iaith Gymraeg y Ddinas.

## Merched y Wawr

Mae Merched y Wawr yn fudiad gwirfoddol, anwleidyddol i fenywod yng Nghymru.  Cynhelir eu gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg a’u nodau yw hyrwyddo materion menywod a chefnogi diwylliant, addysg a’r celfyddydau yng Nghymru.

## Mudiad Meithrin

Mudiad Meithrin: sefydliad gwirfoddol cenedlaethol o Gylchoedd Meithrin, Cylchoedd Ti a Fi, gofal cofleidiol, sesiynau meithrin a meithrinfeydd Cymraeg sy’n cynnig profiadau yn y blynyddoedd cynnar, gofal plant ac addysg o ansawdd i tua 22,000 o blant bob wythnos.



## Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Mae’r Ganolfan yn gorff cenedlaethol sy’n gyfrifol am bob agwedd ar y rhaglen addysg Cymraeg i Oedolion. Mae’n gweithredu fel cwmni hyd braich i’r Llywodraeth, ac mae ganddi weledigaeth glir ar gyfer y dyfodol.

Mae'r Ganolfan:

- yn sefydliad amlwg sy'n gosod cyfeiriad strategol cenedlaethol ar gyfer y sector Cymraeg i Oedolion.
- yn rhoi arweiniad i ddarparwyr Cymraeg i Oedolion.
- yn codi safonau mewn addysgu a dysgu Cymraeg i Oedolion.
- yn datblygu cwricwlwm cenedlaethol diddorol, priodol ac o ansawdd ac yn cynhyrchu adnoddau addas ar gyfer pob math o ddysgwyr.

Prifysgol Caerdydd yw darparwr y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yng Nghaerdydd.

## Amgueddfa Genedlaethol Cymru

Mae Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn gorff a noddir gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnwys saith amgueddfa yng Nghymru

- Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd,
- Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan,
- Pwll Mawr: Amgueddfa Lofaol Cymru,
- Amgueddfa Wlân Cymru,
- Amgueddfa Lechi Cymru,
- Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru
- Amgueddfa Genedlaethol y Glannau

## S4C

S4C yw sianel pedwar Cymru a'r sianel deledu gyntaf i gael ei hanelu'n benodol at gynulleidfa Gymraeg ei hiaith.

## Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

Ffurfiwyd Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ar 18 Tachwedd 2010 drwy uno Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan a Choleg Prifysgol y Drindod Caerfyrddin, o dan Siarter Frenhinol Llanbedr Pont Steffan 1828. Ar 1 Awst 2013, daeth Prifysgol Fetropolitan Abertawe yn rhan o'r Drindod Dewi Sant.

## Urdd Gobaith Cymru

Yr Urdd yw'r mudiad ieuenctid mwyaf i blant a phobl ifanc yng Nghymru gyda dros 50,000 o aelodau. Mae 30 % o bob siaradwr Cymraeg 8-25 oed yng Nghymru yn aelodau.

Nod Urdd Gobaith Cymru yw rhoi'r cyfle i blant a phobl ifanc yng Nghymru, drwy gyfrwng y Gymraeg, dyfu'n unigolion cyflawn, gan ddatblygu sgiliau personol a chymdeithasol a fydd yn eu galluogi i wneud cyfraniad cadarnhaol at y gymuned.

Caerdydd Ddwyieithog Bilingual Cardiff

## Canolfan y Mileniwm

Mae Canolfan Mileniwm Cymru yn ganolfan gelfyddydau a lleoliad perfformio ym Mae Caerdydd. Mae'r ganolfan yn cynnal perfformiadau opera, bale, dawns gyfoes, comedi, theatr, a sioeau cerdd.

Mae Canolfan Mileniwm Cymru yn cynnwys un theatr fawr a dwy neuadd lai gyda siopau, bariau a bwytai. Mae'n gartref i'r gerddorfa genedlaethol a chwmnïau opera, dawns, theatr a llenyddiaeth - cyfanswm o wyth sefydliad celfyddydol preswyl.

Mae gan y brif theatr, Theatr Donald Gordon, 2,497 o seddi, Neuadd Hoddinott y BBC 350 sedd a Theatr Stiwdio Weston 250 sedd.

## Comisiynydd y Gymraeg

Gweledigaeth Comisiynydd y Gymraeg yw gweld Cymru lle gall pobl ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd, a nod statudol y swydd yw hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

Amcanion strategol y Comisiynydd yw:

- Dylanwadu ar bolisi i ddatblygu'r Gymraeg
- Ehangu hawliau pobl i ddefnyddio'r Gymraeg
- Sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg
- Hwyluso defnydd ehangach o'r Gymraeg gyda busnesau ac elusennau

## Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru yw Llywodraeth ddatganoledig Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i wella bywydau pobl yng Nghymru a gwneud ein cenedl yn lle gwell i fyw a gweithio. Mae'r Llywodraeth yn gyfrifol am y meysydd datganoledig sy'n cynnwys meysydd allweddol o fywyd cyhoeddus megis iechyd, addysg a'r amgylchedd.

Mae'r Gymraeg yn un o feysydd cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru – mae Adran 61(k) Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (DLlC 2006) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud unrhyw beth y maen nhw'n ei ystyried yn briodol i gefnogi'r Gymraeg.

Nod Llywodraeth Cymru yw gweld y Gymraeg yn ffynnu, ac mae wedi amlinellu ei gweledigaeth i weld miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Caerdydd Ddwyieithog Bilingual Cardiff



Caerdydd Ddwyieithog Bilingual Cardiff

UCHELGAIS PRIFDDINAS CAPITAL AMBITION

CARDIFF CAERDYDD

STRATEGAETH CAERDYDD DDWYIEITHOG 2022-27